# ATODLEN 18

## RHYDDHAD ELUSENNAU

*Termau allweddol*

2 (1) Yn yr Atodlen hon, mae elusen ("E") sy'n brynwr mewn trafodiad tir yn "elusen gymwys"—

(a) at ddibenion paragraffau 3, 4 a 5, os yw E yn bwriadu dal holl destun y trafodiad at ddibenion elusennol cymwys;

(b) at ddibenion paragraffau 6, 7 ac 8, os yw E yn bwriadu dal ei holl gyfran anrhanedig o destun y trafodiad at ddibenion elusennol cymwys.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae E yn dal testun y trafodiad "at ddibenion elusennol cymwys" os yw E yn ei ddal—

(a) i'w ddefnyddio er mwyn hybu dibenion elusennol E neu elusen arall, neu

(b) fel buddsoddiad y defnyddir yr elw ohono at ddibenion elusennol E.

(3) Yn yr Atodlen hon—

(a) mae i "elusen" yr ystyr a roddir i "charity" gan Ran 1 o Atodlen 6 i Ddeddf Cyllid 2010 (p. 13), a

(b) mae i "diben elusennol" yr ystyr a roddir i "charitable purpose" gan adran 2 o Ddeddf Elusennau 2011 (p. 25).

(4) Yn yr Atodlen hon, mewn perthynas ag E sy'n brynwr mewn trafodiad tir, ceir "digwyddiad datgymhwyso" pan fo—

(a) E yn peidio â bod yn sefydledig at ddibenion elusennol yn unig, neu

(b) holl destun neu unrhyw ran o destun y trafodiad a ryddheir rhag treth o dan yr Atodlen hon, neu unrhyw fuddiant neu hawl sy'n deillio ohono, yn cael ei ddefnyddio neu ei ddal gan E at ddibenion heblaw dibenion elusennol cymwys.